

Darlun o Ofal Cymdeithasol

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Hydref 2021



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Diwygiwyd testun yr adroddiad hwn ar 5 Tachwedd 2021 rhwng paragraffau 51 ac 55 i egluro statws ein gwaith ar gomisiynu cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn nad yw wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi eto.

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Prif adroddiad	
Cyd-destun gofal cymdeithasol	5
Strategaeth gofal cymdeithasol	6
Cyllid gofal cymdeithasol	8
Galw a chapasiti gofal cymdeithasol	11
Perfformiad gofal cymdeithasol	17
Materion allweddol gofal cymdeithasol	20

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o gyfres o allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021. Mae ein prif adroddiad **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021** yn crynhoi rhai o'r tueddiadau allweddol mewn cyllid cyhoeddus ac yn nodi ein safbwynt ar rai o'r materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn: **Darlun o Ofal Cymdeithasol** yn crynhoi gwybodaeth allweddol am ofal cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys y cyd-destun gweithredu strategol, cyllid, perfformiad a chapasiti. Ni fwriedir i'r adroddiad hwn fod yn gynhwysfawr. Mae'n nodi'r hyn a ystyriwn yn rhai o'r materion allweddol i'r sector, gan gydnabod y bydd gan gyrff a sylwebyddion eu safbwynt eu hunain ar y materion allweddol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar gyfuniad o'r gwaith yr ydym ni wedi'i gyhoeddi yn ogystal ag ymchwil gan sefydliadau eraill.

Arddangosyn 1: Allbynnau Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus



Prif adroddiad

Cyd-destun gofal cymdeithasol

Darparu gofal cymdeithasol mewn cyfnod heriol

- 1 Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i wasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu darparu. Darparwyd rhai gwasanaethau o bell, tra bod gwasanaethau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal gyda mesurau rheoli atal heintiau fel cadw pellter cymdeithasol a chyfarpar diogelu personol. Daeth cartrefi gofal i oedolion, yn benodol, o dan bwysau enfawr yn sgil achosion COVID-19 a marwolaeth preswylwyr. Mae pob un ohonom yn Archwilio Cymru yn talu teyrnged i ymroddiad ac ymdrechion anhygoel yr holl staff sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- 2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd effeithiau uniongyrchol COVID-19 yn dal i gael eu teimlo. Roedd gwaith i ddeall effeithiau anuniongyrchol COVID-19 wedi dechrau, ond roedd yn rhy gynnar i fesur maint a graddau'r effeithiau hyn neu i amcangyfrif sut y gallant effeithio ar y galw am wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.
- 3 Bydd yr her o fynd i'r afael ag effaith anuniongyrchol COVID-19 yn debygol o barhau am flynyddoedd i'r dyfodol. Mae'r broblem yn cael ei dwysáu gan y ffaith bod materion sylweddol, hirsefydlog yn y sector gofal cymdeithasol sy'n dyddio o'r cyfnod cyn y pandemig.
- 4 Er gwaethaf yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau, mae cyfleoedd i ailgodi a darparu gwasanaethau'n wahanol, rhoi'r defnyddiwr wrth wraidd gwasanaethau, a dysgu o'r ymateb cyfunol i COVID-19.

Strwythurau a chyfrifoldebau

- 5 Yn gyffredinol, mae gofal cymdeithasol yn ymwneud â darparu amddiffyniad, gofal a chymorth i blant ac oedolion mewn angen neu sydd mewn perygl. Efallai y bydd angen cymorth ar bobl oherwydd salwch, anabled, oedran, cam-drin, esgeulustod neu oherwydd eu bod yn gofalu am rywun arall. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r polisi a'r cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

- 6 Darperir gwasanaethau cymdeithasol a ariennir yn gyhoeddus drwy brif gynghorau¹ sy'n penderfynu sut y byddant yn darparu gwasanaethau drwy wahanol gyfuniadau o sefydliadau'r cyngor, y sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys: gofal cartref² neu ofal dydd; offer i helpu pobl i gynnal annibyniaeth yn y cartref, gofal preswyl; amddiffyn plant; cymorth drwy ac ar gyfer gofalwyr; a chymorth ailgartrefu i bobl sy'n gadael yr ysbyty.
- 7 Mae dulliau o ymdrin â gofal cymdeithasol yn wahanol ledled y DU. Ar hyn o bryd, mae pob un o'r pedair gwlad yn defnyddio prawf modd i gyfrifo faint (os o gwbl) y dylai pob person ei dalu tuag at y naill ran neu'r cyfan o'u gofal eu hunain. Mae'r swm y mae pobl yn ei dalu am eu gofal yn amrywio ar draws y cenhedloedd. Mae Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cynnig rhai gwasanaethau i bobl sy'n gymwys i gael gofal cymdeithasol nad ydynt yn seiliedig ar brawf modd. Ar hyn o bryd, mae Lloegr yn darparu pob gwasanaeth yn seiliedig ar brawf modd.

Strategaeth gofal cymdeithasol

Dull gweithredu cyffredinol

- 8 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar uno iechyd a gofal cymdeithasol ac atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae hefyd yn ceisio cynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal eu hunain ac annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda phobl i 'gyd-gynhyrchu' gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.
- 9 Nododd Llywodraeth Cymru fframwaith ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yn ei Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Daeth y Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n gosod dyletswyddau ar gynghorau, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i wella lles pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Atgyfnerthodd bwerau diogelu; gan gyflwyno un fframwaith cyson o drefniadau asesu ariannol a chodi tâl; ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd a chynghorau gydweithio mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu'r anghenion gofal a chymorth yn eu hardal a nodi pa wasanaethau sydd eu hangen. O dan y Ddeddf, mae gan bobl y mae angen gofal neu gymorth arnynt a gofalwyr hawl i gael asesiad o anghenion yn seiliedig ar 'yr hyn sy'n bwysig' i'r unigolyn.

1 Awdurdodau llywodraeth leol yng Nghymru yw prif gynghorau sy'n cyflawni dyletswyddau statudol yn eu hardal. Nid yw'r term yn cynnwys cynghorau tref na chymuned. Mae pob cyfeiriad at gynghorau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at brif gynghorau.

2 Rhoddir gofal cartref yng nghartref rhywun.

- 10 Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol gydgysylltiedig wedi'i nodi yn ei chynllun deng mlynedd: Cymru lachach (2018). Mae'r cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar atal, cyd-gynhyrchu a newid system gyfan ac mae'n egluro mai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddatblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Roedd yn bwriadu i dechnoleg ddigidol gefnogi trawsnewid gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol drwy System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.
- 11 Yn dilyn yr etholiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu newydd³ ym mis Mehefin 2021. Roedd yn cynnwys amcan llesiant penodol i ddiogelu, ail-adeiladu a datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Mae'r rhaglen lywodraethu yn cynnwys camau gweithredu i integreiddio gofal cymdeithasol yn well â gofal iechyd a gwasanaethau eraill. Mae'n cynnwys cymorth i ofalwyr a theuluoedd lle mae plant mewn perygl o ddod i dderbyn gofal. Mae hefyd yn esbonio y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygio yn radical y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal⁴. Ymhlith pethau eraill, mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru ac mae'n bwriadu lansio Fframwaith Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau.

COVID-19 a thu hwnt

- 12 Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru alluogi prif gynghorau i atal gofynion statudol i gynnal rhai asesiadau a pharatoi rhai cynlluniau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁵. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ebrill 2021, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru⁶ oedi ei harolygiadau arferol gan yn hytrach gynnal 'galwadau dal i fyny' â darparwyr gwasanaethau i gadw mewn cysylltiad, deall y materion yr oeddent yn eu hwynebu a darparu cymorth. Cynhaliodd arolygiadau ffisegol pan yr oedd o'r farn bod angen y rhain i fynd i'r afael â phryderon diogelwch a lles.
- 13 Ym mis Mehefin 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun talu arbennig untro o £500 i wobrwyo staff a oedd yn gweithio mewn cartrefi gofal cofrestredig a gwasanaethau gofal cartref, ac i gynorthwyywyr personol rhwng 15 Mawrth a 31 Mai 2020. Cynghorau oedd yn gyfrifol am ddosbarthu'r taliadau hyn. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail daliad o £735⁷ ar gyfer grŵp ehangach o staff gofal cymdeithasol cymwys a fu'n gweithio rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021.

3 Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026, Mehefin 2021

4 Mae plant sy'n derbyn gofal yn blant sy'n cael eu lleoli mewn gofal maeth, cartrefi preswyl neu gyda pherthnasau eraill pan na all eu rhieni ofalu amdanynt – naill ai dros dro neu'n barhaol.

5 Ni wnaeth unrhyw gyngor arfer pwerau i atal y gofynion statudol hyn.

6 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol y cyngor, y sector preifat a'r sector gwirfoddol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae hefyd yn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol y cyngor.

7 Mae'r ddau daliad cyn treth.

- 14 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2021⁸ i ddarparu strwythur cyffredinol i gefnogi cynllunio adferiad yn y sector. Mae'r Fframwaith yn pennu blaenoriaethau adfer ar gyfer pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr di-dâl, y gweithlu gofal cymdeithasol, a darparwyr gwasanaethau. Yn fwy cyffredinol, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i wario £1 biliwn i gefnogi ei hadferiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Mai 2021. Hyd yn hyn, nid yw wedi nodi faint o arian fydd ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol.
- 15 Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn yn nodi'r heriau sy'n wynebu'r sector a'i chynigion ar gyfer gwella trefniadau gofal cymdeithasol. Trafodir agweddau ar y Papur Gwyn isod.⁹

Cyllid gofal cymdeithasol


- 16 Mae ein hadroddiad cryno: **Darlun o Lywodraeth Leol**¹⁰ yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid i gynghorau. Mae cynghorau'n pennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion y boblogaeth. Yn 2019-20, aeth 25% o wariant refeniw gros cynghorau ar wasanaethau ar wasanaethau cymdeithasol o'i gymharu â 19% yn 2010-11 (**Arddangosyn 2**).

8 Llywodraeth Cymru, Gwella Iechyd a Gofal Cymdeithasol (COVID-19 Edrych Tua'r Dyfodol). Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol, Gorffennaf 2021

9 Llywodraeth Cymru, Papur Gwyn Llywodraeth Cymru: Ailgydbwyso gofal a chymorth – ymgynghoriad ar wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth i gefnogi llesiant pobl yn well, Ionawr 2021

10 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Darlun o Lywodraeth Leol, Medi 2021


Arddangosyn 2: gwariant y cyngor ar wasanaethau cymdeithasol fel cyfran o gyfanswm gwariant 2010-11 i 2019-20



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddata Alldro Refeniw Llywodraeth Leol StatsCymru

17 Gwariodd cynghorau dros £2 biliwn yn 2019-20 ar wasanaethau cymdeithasol - sef £645 y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Cynyddodd gwariant y Cyngor ar wasanaethau cymdeithasol 18% rhwng 2010-11 a 2019-20 mewn termau real (**Arddangosyn 3**).


Arddangosyn 3: gwariant termau real cyngorau ar wasanaethau cymdeithasol 2010-11 i 2019-20



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddata Alldro Refeniw Llywodraeth Leol StatsCymru

18 Mae gwariant y Cyngor ar wasanaethau cymdeithasol wedi'i rannu'n dri thraean, yn fras (**Arddangosyn 4**) er bod y gyfran a wariwyd ar wasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd wedi cynyddu'n raddol o 26% yn 2010-11 i 31% yn 2019-20.


Arddangosyn 4: gwariant gwirioneddol y cyngor ar wasanaethau cymdeithasol yn ôl math 2019-20



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddata Alldro Refeniw Llywodraeth Leol StatsCymru

- 19 Ers 2011 mae gwariant y cyngor ar wasanaethau i blant a theuluoedd ac ar gyfer pobl hŷn wedi cynyddu'n gyflymach na'i wariant ar oedolion o dan 65 oed (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: gwariant termau real y cyngor ar wasanaethau cymdeithasol yn ôl math 2019-20



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Ddata Alldro Refeniw Llywodraeth Leol StatsCymru

Galw a chapasiti gofal cymdeithasol


Bydd y galw am wasanaethau cymdeithasol yn parhau i gynyddu

- 20 Mae Rhagamcanion Poblogaeth Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhagamcan y galw tebygol yn y dyfodol yn ôl grŵp oedran ac angen yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth ehangach. Mae'n dangos, erbyn 2040, y rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n cael trafferth gyda gweithgareddau bywyd bob dydd yn cynyddu 34% (o 2020)¹¹.
- 21 Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru (**paragraff 15**) ar ofal cymdeithasol yn archwilio meysydd lle bydd galw yn y dyfodol. Mae'n esbonio bod y patrwm o angen sy'n cynyddu'n gyflym am wasanaethau plant yn debygol o barhau. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld anghenion cynyddol gan deuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

¹¹ Mae'r ffigurau'n cynnwys oedolion y mae angen cymorth arnynt gyda gweithgareddau bywyd bob dydd fel bwyta, ymolchi a gwisgo a'r rhai y mae angen cymorth arnynt i fyw'n annibynnol, pethau fel rheoli arian, coginio a siopa.

- 22 Yn y gorffennol, roedd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar nifer y plant yr oedd angen cymorth arnynt gan y gwasanaethau cymdeithasol. Gwnaeth roi'r gorau i gyhoeddi'r data yn 2016 oherwydd bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi newid y ffordd yr oedd anghenion yn cael eu hasesu a'u cofnodi. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi data ar nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth (neu blant o dan 18 oed sydd â chynllun gofal a chymorth). Mae'r niferoedd wedi cynyddu ers 2017 (**Arddangosyn 6**). Nid yw'r data'n dangos a oes plant ag anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu er mwyn dangos maint y galw.

Arddangosyn 6: nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth 2017 i 2020




Ffynhonnell: StatsCymru: Gwasanaethau cymdeithasol – nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth

- 23 Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 66% ers 2004 (**Arddangosyn 7**). Canfu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fod gan Gymru nifer uwch o blant sy'n derbyn gofal yn gyson na gweddill y DU ac mae'r bwlch yn parhau i ehangu¹². Canfu hefyd fod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn amrywio'n lleol, ac mae'r niferoedd mewn rhai ardaloedd cyngor yn parhau i fod yn sefydlog neu'n gostwng¹³. Lefelau gwahanol o amddifadedd oedd y prif reswm dros yr amrywiad. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r amrywiad a oedd yn weddill oherwydd gwahanol arferion a pholisïau gwaith cymdeithasol ar draws cyngorau. Canfu'r Ganolfan hefyd fod barnwyr Cymru yn fwy tebygol na'u cymheiriaid yn y DU o wneud gorchmynion sy'n caniatáu i gynghorau gymryd plant i dderbyn gofal.

12 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Plant sy'n Derbyngofal yng Nghymru, Mawrth 2021

13 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Dadansoddiad o'r Ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru, Gorffennaf 2019

Arddangosyn 7: nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru



Ffynhonnell: StatsCymru: Gwasanaethau cymdeithasol – nifer y plant sy'n derbyn gofal

- 24 Roedd ychydig o dan 3,000 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn 2018-19 (**Arddangosyn 8**). Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ffigurau diweddar eto i ddangos a yw'r niferoedd wedi newid oherwydd y pandemig.

Arddangosyn 8: nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant 2016-17 i 2018-19



Ffynhonnell: StatsCymru: Gwasanaethau cymdeithasol – plant ar y gofrestr amddiffyn plant

- 25 Hyd yma, prin yw'r wybodaeth am effaith y pandemig ar alw hirdymor am wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn debygol o greu galw ychwanegol. Mae angen adsefydlu neu gymorth parhaus ar bobl sydd ag adweithiau difrifol i'r feirws neu COVID hir. Gallai problemau iechyd meddwl, dibyniaeth ar alcohol a ffactorau eraill sy'n ymwneud â ffordd o fyw gynyddu nifer y bobl y mae angen cymorth arnynt, ond gall hefyd gyfyngu ar allu gofalwyr di-dâl i ddarparu cymorth.
- 26 Gallai effaith anuniongyrchol y pandemig ar deuluoedd gynyddu'r galw ar wasanaethau cymdeithasol ymhellach. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad tegwch iechyd¹⁴ yn mapio effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol COVID-19. Mae'r adroddiad yn dweud bod y pandemig yn debygol o fod wedi cynyddu'r risg o esgeuluso plant a thrais a cham-drin gartref, yn enwedig i fenywod a phlant. Mae ynysu, addysg o bell, llai o gyllid, diweithdra, a llai o fynediad at gymorth ffurfiol ac anffurfiol i rieni a gofalwyr wedi rhoi pwysau ar rai teuluoedd.
- 27 Mae plant sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd cau ysgolion neu hunanyysu mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru¹⁵ ei bod yn debygol y collwyd rhai achosion o gam-drin neu esgeuluso am nad oedd plant a phobl ifanc yn cael eu gweld gan wasanaethau cyffredinol fel meithrinfeydd, ysgolion a gwasanaethau ieuencid. Yn ein trafodaethau rheolaidd gyda chynghorau, mae swyddogion wedi dweud wrthym fod atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol plant wedi gostwng yn ddramatig pan gaeodd yr ysgolion yn y pandemig. Wrth i ysgolion ailagor, cynyddodd yr atgyfeiriadau a allai fod o ganlyniad i alw wedi'i oedi.

Mae prinder gweithlu, cyflogau isel, trosiant uchel, a therfynau ariannol cul yn golygu bod y sector gofal cymdeithasol dan bwysau

- 28 Ym mis Mawrth 2020, roedd dros 1,900 o leoliadau gofal cymdeithasol¹⁶ i oedolion a phlant yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru - cynnydd o 5% ers mis Mawrth 2015¹⁷. Mae [offeryn data](#) rhyngweithiol Arolygiaeth Gofal Cymru yn dangos bod dros 25,000 o leoedd¹⁸ mewn cartrefi gofal i oedolion yn 2019-20 ac 878 mewn cartrefi gofal i blant.

14 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gosod tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19: Adeiladu bywydau llewyrchus i bawb yng Nghymru, Mawrth 2021


15 Comisiynydd Plant Cymru, Coronafeirws a Ni, Medi 2020

16 Mae ffigurau'n eithrio lleoliadau gofal dydd plant fel meithrin a gwarchodwyr plant.

17 Nid oedd ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2021 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

18 Yn gynnwys lleoedd gwag a rhai a ddefnyddiwyd.

Arddangosyn 9: cyfanswm lleoliadau gofal oedolion a phlant a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru Mawrth 2015 i Fawrth 2020




Ffynhonnell: StatsCymru: gwasanaethau a lleoedd gofal a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru

- 29 Yn 2020, disgrifiodd adolygiad cyflym a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o gartrefi gofal¹⁹ sector a oedd yn cynnwys darparwyr bach â therfynau ariannol cul yn bennaf. Esboniodd fod cartrefi gofal fel arfer yn gweithredu ar lefel â rhwng 85 a 90% o'r lleoedd yn cael eu defnyddio er mwyn parhau i fod yn hyfyw yn ariannol, ond bod lefelau defnydd is cyn y pandemig eisoes yn herio cynaliadwyedd y sector. Ym mis Medi 2020, nododd Arolygiaeth Gofal Cymru²⁰, pan yr oedd darparwyr yn dweud bod ganddynt bryderon ariannol, ei bod yn ymddangos bod y rhain oherwydd 'cymysgedd o gostau staffio uwch, costau uwch am adnoddau, swyddi gwag yn lleihau refeniw a phob un o'r rhain wedi'u cyfuno'.
- 30 Mae'r gweithlu gofal cymdeithasol cyffredinol wedi lleihau, yn enwedig staff rheoli a chymorth canolog a staff gofal cartref i oedolion. Gostyngodd nifer y staff gofal cymdeithasol cyfwerth ag amser cyflawn 17% rhwng 2004-05 a 2018-19 (**Arddangosyn 10**). Yn 2018-19, roedd staff rheoli a chymorth canolog, gwaith cymdeithasol a gwasanaethau gofal cartref i oedolion yn cwmpasu dros 70% o'r gweithlu. O fewn y grŵp hwn, gostyngodd nifer y staff rheoli a chymorth canolog a staff gwasanaethau gofal cartref i oedolion yn sylweddol tra cynyddodd nifer y gweithwyr cymdeithasol (**Arddangosyn 11**).

19 Bolton, Yr Athro J, Adolygiad cyflym o gartrefi gofal o safbwynt COVID-19, 2020


20 Arolygiaeth Gofal Cymru, Trosolwg o'r Adborth a Gafwyd Gan y Sector Gofal Gymdeithasol. Galwadau 'Dal i Fyny' AGC â Darparwyr Gwasanaethau Cofrestredig i Blant ac Oedolion, Medi 2020

Arddangosyn 10: staff gwasanaethau cymdeithasol cyfwerth ag amser cyflawn ledled Cymru 2004-05 i 2018-19



Ffynhonnell: StatsCymru: Staff cyfwerth ag amser cyflawn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Arddangosyn 11: rheolaeth a chymorth canolog cyfwerth ag amser cyflawn, gwaith cymdeithasol a gweithlu gwasanaethau cartref 2004-05 i 2018-19



Ffynhonnell: StatsCymru: Staff cyfwerth ag amser cyflawn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

- 31 Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru (**paragraff 15**) yn dangos bod y rhan fwyaf o staff darparwyr gofal cymdeithasol a gomisiynir yn fenywod a thros 40 oed. Maent yn fwy tebygol o fod yn Ddu Affricanaidd na grwpiau ethnig eraill, a thelir isafswm cyflog cenedlaethol i'r mwyafrif. Ceir cyfraddau trosiant uchel a swyddi gwag yn y sector a defnydd cynyddol o staff asiantaeth costus. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil²¹ ar effaith Brexit ar y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru yn 2019. Canfu'r ymchwil mai recriwtio yw'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector, er nad oedd gwasanaethau'n nodi fawr o newid o ran cadw staff yr UE nad ydynt yn rhan o'r DU yn ystod 2018-19.
- 32 Ceir tystiolaeth hefyd bod rhai staff gofal cymdeithasol yn llenwi bylchau a achosir gan brinder staff gofal ieched. Er enghraifft, canfu'r Coleg Nyrso Brenhinol²² fod y rhan fwyaf o ofal nyrsio mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan gynorthwyr gofal oherwydd prinder nyrsys cofrestredig.
- 33 Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Mawrth 2021, disgrifiodd Prif Weithredwr GIG Cymru y pwysau sylweddol y mae'r pandemig wedi'i roi ar staff ieched a gofal cymdeithasol. Rhybuddiodd am effeithiau hirdymor ar ieched meddyliol a chorfforol staff gan gynnwys Anhwyllder Straen Wedi Trawma.
- 34 Mae rhaglen lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru yn nodi ei bwriad i gynyddu prentisiaethau mewn gofal cymdeithasol a sicrhau bod gweithwyr gofal yn cael y cyflog byw go iawn. Gall gwella cyflogau gweithwyr gofal helpu i lenwi bylchau yn y gweithlu gofal cymdeithasol, ond bydd costau staff uwch yn ychwanegu at bwysau ariannol ar ddarparwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Perfformiad gofal cymdeithasol

Mae newidiadau mewn fframweithiau perfformiad yn golygu nad oes llawer o wybodaeth gyhoeddus i ddeall perfformiad gofal cymdeithasol diweddar

- 35 Cyflwynodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fframwaith perfformiad newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol y cyngor i ddangos a yw gwasanaethau'n bodloni gofynion y Ddeddf a safonau ansawdd. Dechreuodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi perfformiad yn erbyn ei fframwaith yn 2016-17. Rhwng 2016-17 a 2018-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiadau ystadegol ar y mesurau meintiol yn y fframwaith perfformiad. Ataliwyd y gwaith adrodd ar gyfer 2019-20 oherwydd COVID-19.

21 Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru, Mawrth 2019

22 Coleg Nyrso Brenhinol, Staffio ar gyfer Gofal Diogel ac Effeithiol yn y DU, 2020

- 36 Ar ôl ymgynghori â'r sector, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Perfformiad a Gwella newydd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21. Mae'n mesur perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol wrth wneud gwahaniaeth i fywydau defnyddwyr gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r data sy'n dangos perfformiad yn erbyn y Fframwaith yn y dyfodol.
- 37 Ochr yn ochr â'r Fframwaith newydd, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol²³. Mae'n mesur y cyfraniad cyfunol a wnaed gan sector cyhoeddus Cymru i fywydau'r rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018.
- 38 Yn 2019, dywedodd ein hadroddiad ar ofal cymdeithasol i oedolion²⁴ fod sawl cyngor wedi dechrau ehangu systemau rheoli perfformiad i fonitro perfformiad ac effaith gwasanaethau ar y defnyddiwr. Yn fwy cyffredinol, mae cynghorau'n cydnabod bod mesur canlyniadau eu gwaith ataliol yn parhau i fod yn heriol. Yn 2019 canfuom fod trefniadau rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n bennaf ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn hytrach na'r rhwydwaith ehangach o wasanaethau ataliol.
- 39 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r tri adroddiad a gyhoeddwyd hyd yma wedi ystyried y prosesau y bydd gofynion y Ddeddf yn cefnogi newid drwyddynt²⁵, wedi adolygu'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag egwyddorion y Ddeddf²⁶ ac wedi gwerthuso'r broses o weithredu'r Ddeddf²⁷. Nid yw'r gwerthusiad wedi asesu canlyniadau'r Ddeddf eto ar gyfer y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, ond bydd yn cyhoeddi adroddiad gwerthuso interim ym mis Ionawr 2022.

23 Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Pobl sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen cymorth, Chwefror 2019

24 Archwilydd Cyffredinol Cymru Y Drws Blaen i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, Medi 2019

25 Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Adroddiad Fframwaith ar gyfer newid, 2019

26 Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: adolygiad llenyddiaeth, 2020

27 Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, Gwerthusiad o Weithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Gwerthuso Prosesau – Adroddiad, 2021

Mae arolygwyr a Chomisiynwyr wedi codi pryderon difrifol am ansawdd rhai gwasanaethau cyn ac yn ystod y pandemig

- 40 Yn 2019-20, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru²⁸ 1,186 o arolygiadau o wasanaethau oedolion a phlant, y rhan fwyaf o'r rheini yn gartrefi gofal. Canfu nad oedd 109 o wasanaethau'n bodloni gofynion cyfreithiol, a chyhoeddodd 300 o hysbysiadau diffyg cydymffurfio – yn bennaf i gartrefi gofal. Nododd yr Arolygiaeth themâu cyffredin ymhlith y gwendidau:
- gwendidau mewn systemau monitro;
 - staff annigonol;
 - diffyg hyfforddiant;
 - gwiriadau recriwtio araf neu anghyflawn.
- 41 Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru wedi mynegi pryderon y gallai hawliau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal fod wedi'u torri yn ystod y pandemig, ac y gallai cyfyngiadau ar ddarparu gofal iechyd mewn cartrefi gofal fod wedi cyfrannu at farwolaethau cartrefi gofal. Dywedodd adroddiad tegwch iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru (**paragraff 26**) y gallai preswylwyr cartrefi gofal brofi mwy o deimladau o unigrwydd oherwydd diffyg ymwelwyr, a mwy o bryder oherwydd digwyddiadau COVID-19.²⁹
- 42 Mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai cyfnod y cyfyngiadau symud fod wedi bod o fudd penodol i rai grwpiau o blant mewn gofal. Rhwng 8 Mehefin 2020 a 2 Awst 2020, dywedodd darparwyr cartrefi gofal plant a gwasanaethau maethu wrth Arolygiaeth Gofal Cymru fod y berthynas rhwng plant a darparwyr gofal wedi cryfhau yn ystod y pandemig a bod lleoliadau'n fwy sefydlog.³⁰

28 Arolygiaeth Gofal Cymru, Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygwyr 2019-20, Tachwedd 2020

29 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn Gofal Preswyl yng Nghymru Yn ystod Coronafeirws, Hydref 2020

30 Arolygiaeth Gofal Cymru, Trosolwg o adborth a gafwyd gan y sector gofal cymdeithasol, Galwadau 'Dal i Fyny' AGC â darparwyr gwasanaethau cofrestredig i blant ac oedolion, Medi 2020

Materion allweddol gofal cymdeithasol

Mae heriau hirsefydlog yn y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau cynaliadwyedd ariannol a threfniadau ariannu

- 43 Yn 2016, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol [ar y pryd] adolygiad seneddol gan banel annibynnol o arbenigwyr ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol. Nododd yr adolygiad³¹ broblemau gydag ansawdd gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a bylchau mewn rhai agweddau ar ddarparu gofal, yn enwedig cartrefi gofal i oedolion, gofal cartref a gofalwyr maeth. Argymhellodd fodolau gofal newydd, gyda gwasanaethau wedi'u trefnu o amgylch yr unigolyn a'u teulu mor agos i'w cartrefi â phosibl.
- 44 Rhoddodd Llywodraeth Cymru grant o £50 miliwn i gynghorau i fynd i'r afael â'r pwysau ar ofal cymdeithasol yn 2021-22 a darparodd £124 miliwn drwy'r Gronfa Gofal Integredig yn 2020-21. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £129 miliwn o Gyllid Gofal Integredig yn 2021-22. Fodd bynnag, mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru (**paragraff 15**) yn dweud y bydd cyllid yn y dyfodol yn heriol. Mae'n dweud, hyd yn oed os bydd gwariant blynyddol yn cynyddu 5.7%, fel y gwnaeth rhwng 2017-18 a 2018-19 (heb addasu ar gyfer chwyddiant), ei bod yn annhebygol o dalu'r gost o gynyddu'r galw.
- 45 Ers degawdau, mae llywodraethau olynol ledled y DU wedi ymraffael â sut i dalu am ofal cymdeithasol, yn enwedig i bobl hŷn. Mae'r angen am ateb bellach yn fwy nag erioed. Mae'r galw'n parhau i gynyddu tra bod pwysau ariannol a phwysau o ran y gweithlu wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Archwiliodd Grŵp Rhyng-Weinidogol blaenorol Llywodraeth Cymru ar dalu am ofal cymdeithasol ffyrdd o godi arian ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion³² a chyhoeddodd ei ddadansoddiad ym mis Mawrth 2021³³. Mae Gweinidogion Cymru wedi blaenoriaethu cytuno ar ddull gweithredu ledled y DU o ran cyllid gofal cymdeithasol. Mae'r rhaglen lywodraethu yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymgynghori ar ateb 'Cymru'n unig' os nad yw dull gweithredu yn y DU yn bosibl. Nid yw llywodraeth y DU wedi nodi ei chynlluniau ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol eto. Fodd bynnag, ar ddechrau mis Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a disgwylir iddo arwain at tua £700 miliwn o gyllid blynyddol ychwanegol i Gymru erbyn 2024-25, sy'n cynnwys gwariant ledled y DU yn ogystal â chyllid drwy fformiwla Barnett.

31 Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad Interim, Gorffennaf 2017, ac Adroddiad Terfynol, Ionawr 2018

32 Yn seiliedig ar waith yr Athro Holtham: Talu am ofal cymdeithasol – Adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, 2018

33 Grŵp Rhyng-Weinidogol Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, Dadansoddiad o'r Opsynau ar gyfer y Defnyddio Cyllid Gofal Cymdeithasol Ychwanegol, Mawrth 2021

- 46 Mae materion yn ymwneud â thegwch yn y system gofal cymdeithasol bresennol hefyd. Ar hyn o bryd mae costau gofal cymdeithasol yn cael eu hariannu gan gymysgedd o gyllid gwladol a phreifat. Canfu ymchwil ar ran Prifysgol Caerdydd fod rhywfaint o groes-gymorthdal rhwng ffioedd cartrefi gofal a delir gan breswylwyr preifat a chost lleoedd a ariennir gan y cyngor³⁴ nad yw o bosibl yn gynaliadwy. Yn ogystal, gall pobl sy'n gallu fforddio ychwanegu at ddarpariaeth y wladwriaeth dalu am gartrefi gofal drutach, gan roi mwy o ddewis iddynt ynghylch ble a pha fath o gymorth y maent yn ei gael.

Mae'r cynnydd wrth fynd i'r afael â heriau yn y sector wedi bod yn araf

- 47 Galwodd yr Adolygiad Seneddol am wasanaethau hygyrch, o ansawdd uchel, cydgysylltiedig gan ganolbwyntio ar atal a'r dinesydd. Nododd Cymru lachach gynlluniau i fynd i'r afael â materion yr adolygiad seneddol a dywedodd fod yn rhaid i wasanaethau drawsnewid yn gyflym. Ers hynny, mae sawl adolygiad wedi tynnu sylw at gynnydd araf.
- 48 Yn 2019, canfu ein hadolygiad³⁵ o Gronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru³⁶ fod y gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau at ei gilydd i gynllunio a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd agweddau ar y ffordd y caiff y cyllid ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y Gronfa. Yn ogystal â hyn, prin oedd y dystiolaeth bod cyrff cyhoeddus yn symud prosiectau llwyddiannus o'r Gronfa ac i'w cyllidebau craidd.
- 49 Yn 2019, adroddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd³⁷ ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar ofalwyr. Canfu nad oedd y broses o weithredu'r Ddeddf wedi cael adnoddau priodol a galwodd ar Lywodraeth Cymru i roi arweiniad cryfach i sicrhau bod yr hawliau a'r gefnogaeth a addawyd i ofalwyr yn cael eu darparu. Canfu ein hadroddiad yn 2019 ar Ofalwyr Sy'n Oedolion Ifanc³⁸ nad oedd rhai asesiadau i ddeall anghenion oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn digwydd, ac nad oedd rhai pobl ifanc yn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

34 Prifysgol Caerdydd, Dyfodol Gofal yng Nghymru: Adnoddau Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Awst 2020

35 Archwilydd Cyffredinol Cymru Cronfa Gofal Integredig, Gorffennaf 2019

36 Nod y gronfa yw hybu gwaith integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy. Yn hollbwysig, mae'r ICF yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau ar y cyd, gan alluogi sefydliadau i gydweithio'n well.

37 Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd Effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â Gofalwyr, Tachwedd 2019

38 Archwilydd Cyffredinol Cymru Gofalwyr Sy'n Oedolion Ifanc, Medi 2019

- 50 Canfu ein hadroddiad yn 2019 ar ofal cymdeithasol i oedolion (**paragraff 38**) fod rhai cynghorau wedi cynyddu eu gwasanaethau ataliol, a'u bod wedi dechrau symud darpariaeth o ofal cymdeithasol i ddarpariaeth ataliol a chymunedol. Fodd bynnag, gwelsom amrywiaeth eang ledled Cymru, yn enwedig gan fod cyflawni'r newid yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau fod â digon o wasanaethau ataliol ar waith. Gwelsom hefyd nad oedd gan rai cynghorau wybodaeth am fylchau lleol yn y ddarpariaeth a arweiniodd at ddsbarthu a darparu gwasanaethau'n anghyson. Canfu'r gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (**paragraff 39**) nad oedd gan rai sefydliadau ddigon o arian ar gyfer dulliau ataliol.
- 51 Roedd yr Adolygiad Seneddol yn cydnabod yr angen am arloesedd ac i gyflymu datblygiadau technoleg a seilwaith. Fodd bynnag, canfu ein hadroddiad yn 2020 ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru³⁹ fod gweithredu wedi bod yn arafach na'r disgwyl a bod y rhagolygon ar gyfer defnyddio'r system yn llawn a gwireddu budd-daliadau yn ansicr. Gwelsom hefyd nad oedd rhai materion pwysig yn ymwneud â swyddogaethau'r system, safonau data ac adrodd am fudd-daliadau wedi'u datrys eto.

Mae COVID-19 wedi gwneud yr angen am newid yn fwy pwysig, ond bydd trawsnewid gofal cymdeithasol yn heriol

- 52 Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru (**paragraff 15**) yn nodi ei weledigaeth i fynd i'r afael â heriau hirsefydlog ym maes gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ail-gydbwysu'r farchnad ofal a symud oddi wrth y pris tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol. Mae'n dymuno datblygu fframwaith cyffredin i leihau cymhlethdod wrth gomisiynu gwasanaethau, canolbwyntio trefniadau ar ganlyniadau yn hytrach na thasgau, ac annog darparwyr di-elw i dyfu. Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno annog cydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol drwy gryfhau swyddogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- 53 Mae COVID-19 wedi gwaethygu rhai o'r materion sy'n wynebu'r sector, gan wneud yr angen am drawsnewid yn fwy pwysig. Mae cyfraddau defnyddio cartrefi gofal is o ganlyniad i'r feirws yn debygol o gyfrannu at bwysau ariannol. Gall y pwysau parhaus ar y gweithlu gael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u lles gan wneud y sector yn fwy agored i brinder staff. Gallai hefyd wneud y sector yn llai brwdfrydig ac yn llai parod i dderbyn newidiadau os yw'r adnoddau'n gyfyngedig.
- 54 Mae'r Papur Gwyn yn disgrifio ansicrwydd ynghylch setliadau cyllideb yn y dyfodol gan lywodraeth y DU. Er gwaethaf y cyllid ychwanegol (**paragraff 45**), hwyrach y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i wynebu rhai dewisiadau anodd o ran blaenoriaethu cyllid, yn enwedig rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

- 55 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr ymatebion i'w Phapur Gwyn ym mis Ebrill 2021 ac mae wedi ymrwymo i ddeddfu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig gwell yn ei Rhaglen Lywodraethu. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar gomisiynu cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yng Ngogledd Cymru. Mae ein canfyddiadau, sydd, yn ein barn ni, yn debygol o gael eu hailadrodd i ryw raddau mewn rhannau eraill o Gymru, yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r cynigion yn y Papur Gwyn yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â materion hirsefydlog yn y sector.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Facs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru